# Archwiliad Coed Campus

Mae coed yn anhygoel. Maen nhw'n ein helpu drwy anadlu'r ocsigen allan rydym ni ei angen i'w anadlu i mewn. Maen nhw hefyd yn rhoi cartref i lawer o bryfed, adar, ystlumod a bywyd gwyllt arall. Maen nhw'n rhoi cysgod i ni i gadw'n oer yn yr haf ac maen nhw'n rhoi pren i ni adeiladu dodrefn a phapur i ysgrifennu arno.

Gall coed hefyd fod yn hen iawn - hyd yn oed yn hŷn na'ch neiniau a'ch teidiau, felly mae'n bwysig ein bod ni'n gofalu amdanynt ac yn eu trin gyda pharch.

Weithiau mae coed yn cael eu torri i wneud pethau neu oherwydd nad ydynt yn ddiogel ger ein cartrefi. Mae'n bwysig ein bod ni'n ceisio plannu coed newydd a gofalu amdanynt nes eu bod yn fawr ac yn gryf.



Eco-Tots Cymru

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Coed Campus

**Ceisiwch ateb y cwestiynau yn y tabl.**

| | | |
|---|---|---|
| A oes gennych chi coed yn tyfu yn eich lleoliad? | OES | NAC OES |
| Yn yr hydref, ydych chi erioed yn casglu mes, concyrs neu hadau hofrennydd sycamorwydden ac yn eu plannu i dyfu coed newydd? | YDYN | NAC YDYN |
| Ydych chi'n mynd ar unrhyw deithiau cerdded drwy'r coed yn eich ardal leol? | YDYN | NAC YDYN |
| Allwch chi ddewis un peth y gallech chi ei newid yn eich lleoliad ac ychwanegu eich syniad at y cynllun gweithredu isod? | GALLWN | NA |
| Ydych chi erioed yn casglu dail sydd wedi cwympo i wneud lluniau? | YDYN | NAC YDYN |



Eco-Tots Cymru

Os oes gennych chi unrhyw atebion gyda wynebau trist, meddyliwch am beth allech chi ei newid yn eich lleoliad i'w gwneud yn wynebau hapus?

| Beth ydym ni am ei newid? | Sut fyddwn ni'n ei newid? | Pa wahaniaeth wnaethom ni ar ôl i ni wneud y newid? |
| --- | --- | --- |
| | | |